OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1277 (Cy.122)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*10 Mai 2006*
Yn dod i rym - -	*11 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 20(1), 21(4) a 94(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 11 Mai 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran disgyblion a waherddir o ysgolion yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn–

mae i "cyfnod perthnasol" ("relevant period") yr ystyr a roddir i'r geiriau hynny gan reoliad 4;

ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;

ystyr "Deddf 2002" ("the 2002 Act") yw Deddf Addysg 2002(**2**); ac

mae i "diwrnod ysgol" ("school day") yr ystyr a roddir i "school day" yn Neddf Addysg 1996.

Amodau Rhagnodedig

3.—(1) Rhagnodir y materion canlynol at ddibenion adran 20(1)(b) o'r Ddeddf.

(2) Yn achos disgybl a waherddir am gyfnod penodol, rhaid i'r gwaharddiad fod yn ail waharddiad neu'n waharddiad olynol a waharddodd y disgybl o unrhyw ysgol cyn pen deuddeng mis ar ôl y diwrnod pan ddechreuodd y gwaharddiad blaenorol.

(3) Ym mhob achos, ni ellir gwneud cais ond cyn pen y cyfnod perthnasol ac ar yr amod–

(**1**) 2003 p.38. Rhoddir y pwerau i'r "appropriate person". Mae adran 24 yn diffinio'r "appropriate person" fel "in relation to Wales, the National Assembly for Wales"

(**2**) 2002 p.32.